7500-10171-CY Rev A

# Canllaw Cychwyn Cyflym

AgaMatrix®

## System Monitro Glwcos Gwaed AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless

**Gofal Cwsmeriaid: 0800 093 1812**

Os bydd argyfwng, cysylltwch â'ch gweithiwr gofal iechyd neu ymateb meddygol brys.




**YN CYSONI'N AWTOMATIG AG AP TRWY Bldechnoleg ddiwifr Bluetooth®**

Mae cyfarwyddiadau paru a chysoni trosodd.

## Batris sbâr wedi eu cynnwys!

Mae dau fatri sbâr lithiwm, 3-folt CR2032 wedi eu cynnwys yng nghas cludo eich mesurydd. Gweler y cyfarwyddiadau i newid batri trosodd.

### Ynglŷn â'r system

Mae System Monitro Glwcos Gwaed AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless yn eich galluogi i wirio eich lefelau glwcos gyda gwaed cyfan capilarïaidd. I weld y cyfarwyddiadau llawn, gweler eich Canllaw Perchennog AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless.

***RHYBUDD: RHAID defnyddio'r Ddyfais Pigo AgaMatrix i gael sampl gwaed gan un person unigol YN UNIG ar gyfer hunan brofi. Peidiwch â defnyddio unrhyw bigyn na dyfais pigo mae rhywun arall wedi ei defnyddio.***

### Mesurydd Glwcos Gwaed

1) Ardal Arddangos

2) Porth Stribed Profi

3) Botwm Mesurydd: Gwasgwch i droi'r mesurydd ymlaen a gweld canlyniadau profion glwcos blaenorol.




### Stribed Profi





1) Bariau Cyswllt: rhowch y pen yma yn y porth stribed profi

2) Ffenestr Llenwad Gweledol: mae'n llenwi'n llwyr pan fydd digon o sampl wedi ei weithredu

3) Ardal Sampl: rhoddir gwaed neu doddiant rheoli yma

### System Pigo




1) Carn Clicied
2) Detholwr Dyfnder
3) Dyfnder
4) Botwm Rhyddhau
5) Alldaflwr Pigyn
6) Corff y Ddyfais Pigo
7) Daliwr Pigyn
8) Cap y Ddyfais Pigo
9) Cap Profi Safle Amgen (Clir)
10) Pigyn
11) Gorchudd Pigyn

*Sylwer: Os byddwch chi'n cysoni eich mesurydd â'r Ap AgaMatrix Diabetes Manager (yr Ap) dylech osod amser a dyddiad eich mesurydd cyn profi. Bydd hyn yn sicrhau bod canlyniadau o'r mesurydd yn cael eu hanfon yn ddiwifr i'r Ap. Gweler trosodd ar y Canllaw Cychwyn Cyflym hwn neu gweler eich Canllaw Perchennog am ragor o fanylion.*


## Camau Profi Glwcos Gwaed

*(I weld y cyfarwyddiadau llawn, gweler eich Canllaw Perchennog AgaMatrix WaveSense JAZZ)*

### 1 Rhowch y stribed profi yn y mesurydd:

Rhowch y stribed profi, gyda'r bariau cyswllt yn wynebu i fyny, yn y porth stribed profi. Bydd y mesurydd yn cael ei ysgogi'n awtomatig.


*RHYBUDD: I sicrhau canlyniadau cywir, golchwch eich dwylo gyda dŵr cynnes, sebonllyd, eu rinsio a sychu'n drylwyr cyn pob prawf.*



### 2 Pigwch yr ardal brawf:

Gweler y cyfarwyddiadau ar sut i baratoi'r ddyfais pigo, ar y dde.


Pwyswch y ddyfais pigo yn erbyn y safle i'w bigo a gwasgwch y botwm rhyddhau.




### 3 Casglwch ddiferyn o waed:

Gwasgwch o waelod eich bys tuag at y blaen, gan odro eich bys, nes bydd diferyn bychan o waed yn ffurfio.


Peidiwch â gwasgu'n uniongyrchol o amgylch yr ardal sydd wedi ei bigo.



### 4 Dewch â'r stribed prawf at y sampl gwaed:


Mae'r mesurydd yn arddangos yr animeiddiad rhoi'r sampl ar y stribed profi, gan ddangos ei fod nawr yn barod i chi roi'r gwaed yno.

Mae'r stribed profi yn sugno'r gwaed i mewn i'r stribed profi trwy'r ardal sampl.




### 5 Tynnwch o'r sampl pan fydd ffenestr llenwad gweledol y stribed profi yn troi'n hollol goch a'r mesurydd yn bipio:

Bydd y symbol sampl wedi ei dderbyn yn ymddangos ar sgrin y mesurydd a bydd y mesurydd yn bipio pan ddylech chi dynnu'r stribed profi o'r sampl gwaed.



*Bydd y ffenestr llenwad gweledol i gyd yn troi'n goch.*




Bydd yr animeiddiad cyfrifo yn ymddangos ar arddangosydd y mesurydd wrth gyfrifo canlyniad y prawf.




### 6 Gweld canlyniadau'r prawf a chamau terfynol:

Yn dilyn yr animeiddiad cyfrifo, bydd canlyniad y prawf yn ymddangos ar ddangosydd y mesurydd. Mae canlyniadau'r prawf yn cael eu storio yng nghof y mesurydd.




Tynnwch y stribed profi a ddefnyddiwyd o'r mesurydd. Bydd y mesurydd yn cael ei ddiffodd yn awtomatig.


Snapiwch gap y ddyfais pigo i ffwrdd a rhoi gorchudd pigiad newydd yn ei le. Tynnwch y pigyn a ddefnyddiwyd.

Gwaredwch yn briodol ar y stribed profi a'r pigyn sydd wedi eu defnyddio. Dilynwch gyfarwyddiadau eich gweithiwr iechyd proffesiynol ar gyfer gwaredu.




## Paratoi'r System Pigo


**1** Trowch y cap oddi ar y ddyfais pigo.




**2** Rhowch bigyn newydd i mewn i'r daliwr pigyn yn gadarn. Gwasgwch y botwm rhyddhau i arddangos mwy o'r pigyn.




**3** Daliwch y pigyn a throi'r gorchudd i ffwrdd.




**4** Amnewidiwch gap y ddyfais pigo.



**5** Gosodwch y dyfnder trywanu croen.




**6** Tynnwch y carn clicied allan nes ei fod yn clicio.



©2018 AgaMatrix, Inc. Cedwir pob hawl. Mae pob nod masnach ac/neu hawlfraint yn eiddo i'w perchnogion perthnasol. Ar gyfer gwybodaeth patent, gweler www.agamatrix.com/patents

# Canllaw Cychwyn Cyflym

## System Monitro Glwcos Gwaed AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless





**YN CYSONI'N AWTOMATIG AG AP TRWY dechnoleg ddiwifr Bluetooth®**

*Sylwer: Os byddwch chi'n cysoni eich mesurydd i'r Ap AgaMatrix Diabetes Manager (yr Ap) dylech osod amser a dyddiad eich mesurydd cyn profi. Bydd hyn yn sicrhau bod canlyniadau o'r mesurydd yn cael eu hanfon yn ddiwifr i'r Ap.*

## CYFARWYDDIADAU AMNEWID BATRI

*PWYSIG: Dim ond batris CR2032 neu DL2032 ddylid eu defnyddio gyda'r Mesurydd AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless.*

### Negeseuon Arddangos Batri



**Neges Batri Isel:** *(Mae'r neges yma yn ymddangos am 2 eiliad)* Byddwch yn dal i allu cyflawni prawf pan welwch chi neges batri isel, ond dylid amnewid y batris cyn gynted â phosibl. Defnyddiwch fatris CR2032 neu DL2032 yn unig.



**Neges Batri Gwag:** Does dim digon o bŵer yn y batris yn eich mesurydd i ysgogi eich mesurydd a chyflawni prawf: rhaid amnewid y batris.


### Amnewid y Batris *(I weld y cyfarwyddiadau llawn, gweler eich Canllaw Perchennog AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless)*

***PWYSIG: Pan fydd y batris yn cael eu hamnewid, bydd yr amser a dyddiad yn cael eu dileu o'ch mesurydd. Rhaid i chi gysoni eich mesurydd â'ch dyfais a gefnogir i sicrhau bod amser a dyddiad ar gyfer eich darlleniadau. I gysoni eich mesurydd, gweler y cyfarwyddiadau ar y dde.***

*Sylwer: Nid yw tynnu'r batris yn effeithio ar gofnodion glwcos sydd wedi eu storio.*


#### 1 Agorwch ddrws y batri:

Sicrhewch fod y mesurydd wedi ei ddiffodd. Trowch y mesurydd fel eich bod yn edrych ar ddrws y batri. Llithrwch ddrws y batri oddi ar y mesurydd.



#### 2 Tynnwch y batris sydd wedi darfod:

Tynnwch y batris sydd wedi darfod gydag offeryn nad yw'n fetelig





*Batris sydd wedi darfod*

#### 3 Gosodwch y batris newydd:

**Mae dau fatri sbâr wedi eu cynnwys ym mhoced cas cludo eich mesurydd.** Lleolwch y batris sbâr.


Rhowch y batris newydd i mewn gyda'r arwydd positif (+) yn wynebu i fyny tuag atoch chi.




*Batris newydd*

#### 4 Caewch ddrws y batri:

Llithrwch ddrws y batri ar y mesurydd. Gwnewch yn siŵr bod drws y batri wedi ei gau'n llwyr cyn defnyddio'r mesurydd.



Gwaredwch ar y batris yn unol â'ch rheoliadau amgylcheddol lleol.

CE 0123 AgaMatrix, Inc. 7C Raymond Ave Salem, NH 03079 UDA EC REP MDSS GmbH, Schiffgraben 41 30175 Hannover, Yr Almaen

Mae'r nod a logos Bluetooth® yn eiddo i Bluetooth® SIG, ac mae unrhyw ddefnydd o nodau o'r fath gan AgaMatrix, Inc dan drwydded. Mae nodau masnach ac enwau masnachu eraill yn eiddo i'w perchnogion perthnasol. Mae Apple a'r logo Apple yn nodau masnach i Apple Inc., wedi cofrestru yn yr Unol Daleithiau a gwledydd eraill. Mae App Store yn nod gwasanaeth i Apple Inc. Mae Android yn nod masnach i Google Inc. Mae Google Play yn nod masnach i Google Inc.

## CYFARWYDDIADAU PARU A CHYSONI

Mae'r Ap AgaMatrix Diabetes Manager yn gweithio ar amrywiaeth o ddyfeisiau iOS ac Android™, ewch i www.agamatrix.co.uk i weld rhestr gyfredol.

### Paru a Chysoni eich Mesurydd â'r Ap

Defnyddiwch y Mesurydd AgaMatrix WaveSense JAZZ™ Wireless gyda'r Ap AgaMatrix Diabetes Manager (yr Ap) i gysoni eich canlyniadau glwcos yn uniongyrchol â'ch dyfais iOS neu Android.

Os byddwch chi'n cysoni eich mesurydd â'r Ap AgaMatrix Diabetes Manager (yr Ap) dylech osod amser a dyddiad y mesurydd cyn profi. Bydd canlyniadau prawf heb amser a dyddiad penodol yn cael eu harddangos ar eich mesurydd gyda "--:--" a "--/--" yn lle amser a dyddiad.

#### 1 Lawrlwythwch ac agorwch yr Ap:

Lawrlwythwch yr Ap AgaMatrix Diabetes Manager (yr Ap) o'r App Store℠ (ar gyfer dyfeisiau Apple) neu o Google Play™ (ar gyfer dyfeisiau Android).


Tarwch ar eicon yr Ap ar eich dyfais.

AgaMatrix

Download on the App Store | GET IT ON Google Play

#### 2 Llywiwch i'r eicon dewislen:

Tarwch ar yr eicon sy'n cynnwys tair llinell.




#### 3 Ychwanegwch fesurydd newydd:

Tarwch ar "**Mesuryddion**." Tarwch ar "**Ychwanegu mesurydd newydd**."

Ar eich mesurydd, pwyswch a daliwch y Botwm Mesurydd. Dewiswch eich mesurydd pan fydd yn ymddangos yn yr ap.

#### 4 Rhowch yr allwedd diogelwch:

Bydd allwedd diogelwch 6 digid yn ymddangos ar y mesurydd. Teipiwch yr allwedd diogelwch i mewn i'r Ap.

*Enghraifft o allwedd diogelwch:*




#### 5 Cadarnhewch fod y paru wedi llwyddo:


Bydd y mesurydd a'r Ap yn dynodi bod paru wedi llwyddo. Bydd tic yn ymddangos ar y mesurydd a bydd yr Ap yn dangos neges.

*Enghraifft o arwydd tic:*



#### 6 Cysoni data:

Wedi i'ch mesurydd gael ei baru gyda'ch dyfais, bydd yn "cysoni", neu drosglwyddo data, pob tro y bydd yn agos at eich dyfais wedi paru.




*Sylwer: Rhaid i'r mesurydd a'r Ap fod o fewn 10 metr i'w gilydd er mwyn paru a throsglwyddo data.*